LOGO

Enw: .....

1. Llwythwch y wefan ar gyfer *LOGO* (https://www.mathemateg.com/logo/index.htm).

2. I lunio petryal, teipiwch y canlynol:

```
FORWARD 100
RIGHT 90
FORWARD 50
RIGHT 90
FORWARD 100
RIGHT 90
FORWARD 50
```

3. Cliriwch y sgrin trwy deipio **CLEAN** ac yna ewch a'r crwban yn ôl i'w leoliad ar y cychwyn trwy deipio **HOME**.

4. Ceisiwch lunio'r trionglau canlynol.
   (a) Triongl hafalochrog. (b) Triongl isosgeles. (c) Triongl ongl sgwâr. (ch) Triongl anghyfochrog.
   Ysgrifennwch y cyfarwyddiadau rydych yn ei ddefnyddio i lunio'r siapiau yn eich llyfr.

5. Ceisiwch lunio'r pedrochrau canlynol.
   (a) Sgwâr. (b) Paralelogram. (c) Trapesiwm. (ch) Rhombws. (d) Barcud. (dd) Blaen Saeth.
   Ysgrifennwch y cyfarwyddiadau rydych yn ei ddefnyddio i lunio'r siapiau yn eich llyfr.

   Bydd y cyfarwyddiadau canlynol yn ddefnyddiol.

FORWARD 50 **FD 50** Mynd â'r crwban ymlaen 50 step.	**BACK 50** **BK 50** Mynd â'r crwban yn ôl 50 step.	**LEFT 72** **LT 72** Troi'n wrthglocwedd trwy 72 gradd.	**RIGHT 56** **RT 56** Troi'n glocwedd trwy 56 gradd.
CLEAN Clirio'r holl linellau.	**HOME** Symud y crwban yn ôl i ganol y sgrin.	**PENUP** **PU** Codi'r pin.	**PENDOWN** **PD** Gostwng y pin.

6. **Sialens:** A fedrwch lunio pentagon rheolaidd? Beth am hecsagon reolaidd? Octagon rheolaidd?